



Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid 2018

Canllawiau

## Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid

Tu cefn i oedolion sy'n ddysgwyr llwyddiannus mae mentoriaid a thiwtoriaid sy'n ysbrydoli. Rydym eisiau cydnabod gwaith ac ymroddiad eithriadol tiwtoriaid/mentoriaid ledled Cymru i helpu oedolion sy'n ddysgwyr i gyflawni eu huchelgais.

Gwahoddwn enwebiadau ar ran unigolion eithriadol y mae eu hymrwymiad, gwybodaeth a sgiliau cyfathrebu wedi rhoi'r anogaeth i oedolion ymgysylltu gyda dysgu a thrawsnewid eu bywydau.

Cyflwynir y Gwobrau ym mis Rhagfyr 2018. Mae Gwobrau Ysbrydoli! yn bartneriaeth rhwng y Sefydliad Dysgu a Gwaith a Llywodraeth Cymru.

## Am beth ydyn ni'n edrych?

Edrychwn am **diwtoriaid/mentoriaid** sy'n rhagori yn eu maes ac yn mynd yr ail filltir.

Dylai enwebiadau ddangos cyflawniad mewn **o leiaf ddau** o'r meysydd dilynol:

- Datblygu'r cwricwlwm a chreu adnoddau a deunyddiau newydd
- Goresgyn amgylchiadau personol a/neu weithio mewn amgylchiadau anodd
- Cyfrannu at ehangu mynediad ac adeiladu llwybrau i gyfleoedd dysgu
- Ysbrydoli dysgwyr i symud ymlaen i gyrsiau eraill neu gyfleoedd i ddysgu
- Creu partneriaethau neu lwybrau newydd i ddysgu
- Datblygu ffyrdd arloesol o gefnogi, addysgu neu fentora dysgwyr

## **Tystiolaeth o effaith:**

Dylai eich datganiadau ddangos sut mae'r tiwtor/mentor wedi cael effaith ar fywydau eu myfyrwyr.

## **Gallai eich ffocws fod ar:**

- Cynnydd, cyrhaeddiad a chyflawniad
- Tystiolaeth o effaith ar iechyd a llesiant dysgwyr
- Disgrifio sut mae defnyddwyr wedi defnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd ganddynt i gyfrannu at fywyd teuluol/cymunedol/cymdeithas ddinesig/y gweithle neu i drawsnewid eu bywydau eu hunain.

Croesewir geirda ychwanegol gan fyfyrwyr, dysgwyr a chydweithwyr.

## **Edrychwn am am diwtoriaid/mentoriaid sy'n weithgar yn y sectorau neu osodiadau dilynol**

### **Gwobrau Tiwtor**

- Addysg Uwch
- Addysg Bellach
- Gweithle
- Addysg Gymunedol
- Cymraeg i Oedolion
- Ysgol neu osodiad arall

## **Canllaw i gyflwyno eich enwebiad**

- Mae cynigion yn rhad ac am ddim ac ar agor i diwtoriaid/mentoriaid sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru.
- Gallwch enwebu tiwtor/mentor os ydych yn ddysgwr, yn ddarparwr neu'n gyflogwr/cydweithiwr, tiwtor arall, dysgwr neu aelod o'r gymuned.
- Os ydych yn ddysgwr/aelod o'r gymuned mae'n rhaid i chi gael datganiad cefnogaeth ar gyfer eich enwebai gan rywun sy'n eu hadnabod mewn cyswllt proffesiynol.
- Ni chaiff tiwtoriaid/mentoriaid eu henwebu eu hunain neu gychwyn y broses.

- Mae'n rhaid i bawb a enwebir wybod eu bod yn cael eu henwebu a dylent fod yn fodlon rhannu eu straeon gyda'r cyfryngau.
- Bydd pawb a enwebir yn derbyn tystysgrif cyflawniad. Anfonir hyn at y person a enwir ar y ffurflen. **Gofynnir i chi sicrhau y caiff enw y sawl a enwebwch ei sillafu'n gywir. Dyma'r enw fydd yn ymddangos ar y dystysgrif.**
- Caiff eich cais ei farnu ar yr wybodaeth a roddwch yn y ffurflen enwebu, felly gofynnir i chi sicrhau eich bod yn trin y meysydd y rhoddir sylw iddynt yn y canllawiau.

## Cofiwch anfon eich enwebiad erbyn y dyddiad cau - dydd Llun 22 Hydref 2018.

Os ydych angen unrhyw gymorth gyda'ch ffurflen enwebu, cysylltwch â:  
[inspire@learningandwork.org.uk](mailto:inspire@learningandwork.org.uk)

### Sut mae'r broses ddethol yn gweithio?

- Bydd panel annibynnol o feirniaid yn cynorthwyo i ddewis enillwyr gwobrau.
- Caiff pawb sy'n ennill gwobr eu hysbysu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith erbyn yr wythnos yn dechrau 12 Tachwedd 2018 a chânt eu gwahodd i Gyflwyniad Gwobrau Ysbrydoli! Tiwtoriaid ym mis Rhagfyr 2018.

### Sut y gallaf gyflwyno fy ffurflen enwebu?

#### AR-LEIN

Y ffordd rwyddaf a chyflymaf i gyflwyno eich ffurflen yw drwy lenwi ac anfon ar-lein

#### DRWY E-BOST

E-bostiwch eich ffurflen wedi ei llenwi at:  
[inspire@learningandwork.org.uk](mailto:inspire@learningandwork.org.uk)

#### DRWY'R POST

Anfonwch eich ffurflen at:  
 Enwebiadau Ysbrydoli!  
 Tiwtoriaid  
 Sefydliad Dysgu a Gwaith  
 35 Heol y Gadeirlan,  
 Caerdydd CF11 9HB



Llywodraeth Cymru  
 Welsh Government

Gwefan: [www.learningandwork.wales](http://www.learningandwork.wales)  
 Twitter: [@LearnWorkCymru](https://twitter.com/LearnWorkCymru)  
 Facebook: [Learning and Work Institute](https://www.facebook.com/LearningandWorkInstitute)